**Atal Sbeicio Diodydd a Chefnogi Goroeswyr**

Pasiwyd gan: Y Senedd

Pasiwyd ar: 01/11/2021

**Statws: Cyflawnwyd**

**Swyddog sy'n gyfrifol: Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA**

---

**Crynodeb**

Cynnig sy'n canolbwyntio ar helpu atal sbeicio yn Aber a hefyd i gynnig cymorth i'r rhai sydd wedi cael eu sbeicio.

**Manylion**

Rydym yn tynnu sylw at y cynnydd sylweddol mewn achosion o sbeicio diodydd yn Aberystwyth, rhywbeth mae cryn dipyn o'n myfyrwyr wedi'i brofi. Fe'i cadarnhawyd gan y Brifysgol ac hefyd gan yr Heddlu. Oherwydd peryglon sbeicio diodydd, a nifer yr achosion, rydym yn credu ei bod yn bwysig ein bod yn gweithredu er mwyn osgoi achosion o'r fath rhag ddigwydd a chefnogi'r rhai sydd wedi dioddef yn sgil achosion o sbeicio.

Mae rhan gyntaf y syniad hwn yn ymdrin ag osgoi, a bydd yr Undeb Myfyrwyr (UM) yn prynu stribedi profi a fydd yn gallu cafod cynhwysion cyffredin a ddefnyddir i sbeicio diodydd. Bydd hyn yn galluogi myfyrwyr i roi prawf ar eu diodydd ar noson allan os ydyn nhw'n pryderu – gan olygu eu bod yn gallu cadw'n yn fwy diogel ac efallai lleihau'r tebygolrwydd o yfed diod wedi'i sbeicio. Yn ogystal â hyn, mae'r stribedi profi yn rhoi ffordd gyflym o weld a ydy diod wedi'i sbeicio neu os ydynt yn credu bod hynny wedi digwydd, a bydd hyn yn galluogi pobl sydd wedi cael eu sbeicio i chwilio am gymorth meddygol ar unwaith. Er na fydd y stribedi hyn yn canfod pob math o sylwedd a allai gael ei ddefnyddio i sbeicio diod rhywun, mae o leiaf yn rhoi mwy o ddiogelwch i fyfyrwyr tra eu bod ar noson allan.

Er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn gallu defnyddio'r cynhyrchion hyn, dylent fod ar gael i'w casglu yn yr UM – ac maen nhw hefyd yn cael eu hysbysebu ar wefan yr UM, trwy e-bost a thrwy sianeli digidol. Ar ben hynny, gallai'r ymdrechion hyn gael eu hariannu trwy roddion gan sefydliadau allanol megis yr heddlu neu gan elusennau ymwybyddiaeth alcohol ac aflonyddwch rhywiol. Os na ellir dod o hyd i ffynhonnell gyllido, dylem yn cyfamser, ganolbwyntio ar weithio gyda thafarndai a chlybiau lleol i'w hannog i stocio'r stribedi. Bydd hyn yn sicrhau fod myfyrwyr yn ddiogel lle bynnag maent yn mynd allan yn

y dref.
Ail ran y syniad hwn yw sicrhau fod myfyrwyr yn ddiogel tra eu bod yn y dref a'i bod yn hawdd cael help. Sicrhau bod myfyrwyr yn gwybod ble i fynd yn yr achos o sbeicio yw rhan sylweddol o hyn. Felly, dylai'r UM hefyd gysylltu â thafarndai a chlybiau lleol a chyhoeddi manylion ynghylch ble i fynd a beth i'w wneud ym mhob un o'r lleoliadau hyn ar eu gwefannau. Bydd hyn yn gwneud yn siwr fod gan fyfyrwyr rywle y gellir cyfeirio ato os digwydd unrhyw beth, a'u bod yn gallu darllen y manylion hyn cyn noson allan, er mwyn iddynt gael gwybod beth i'w wneud petai'n digwydd. Ar ben hynny, gallai'r UM gydweithio gyda lleoliadau gwahanol a rhannu arferion da, gan obeithio gwella'r lefel o ddiogelwch ar draws Aberystwyth gyfan.

Mae rhan olaf y syniad hwn yn ymdrin â'r cymorth mae dioddefwyr yn ei gael. Yn ôl y gweithdrefnau academaidd cyfredol, mewn rhai adrannau, gallai myfyrwyr sydd wedi dioddef yn sgil sbeicio diod gael eu cosbi'n academaidd os ydynt yn colli darlith oherwydd y digwyddiad. Mae hyn oherwydd bod presenoldeb yn cael ei chyfrif fel ffactor sy'n cyfrannu at farc olaf y radd mewn rhai modiwlau. Oherwydd hyn, rydym yn credu y dylai'r UM weithio gyda'r Brifysgol i newid y gweithdrefnau hyn a sicrhau nad yw myfyrwyr byth yn cael ei cyfrif fel absennol heb ganiatâd os ydynt wedi cael eu sbeicio. Dylai hyn ddigwydd hyd yn oed mewn achosion o sbeicio heb dystiolaeth, fel adroddiad yr heddlu. Dylai'r polisi hwn gydnabod nad yw pob dioddefwr yn teimlo'n gyfforddus i adrodd am yr achos i'r heddlu nac i neb arall.

Cyflwynwyd gan: Jasneet Kaur Samrai

---

**Diweddariadau**

| **Camau a gymerwyd** | **Enw a Rôl** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| Mae citiau gwrth-sbeicio i'w cael yn Hyb y Swyddogion a thu ôl i'r bar diolch i'r polisi. Mae'r Swyddog Llesiant (2023-24) hefyd am gynnal cyfarfod strydoedd saff. | Helen (Llesiant 2023-24) | Tachwedd 2023 |
| Rydyn ni wedi gweld Safer Streets a Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed wedi dod i'r Undeb i gyflwyno hyfforddiant ar aros'n ddiogel yn y nos ac ymwybyddiaeth o gyffuriau. Rydyn ni hefyd wedi diweddaru ein posteri gwrth-sbeicio ar gyfer eleni. | Helen (Llesiant 2023-24) | Mehefin 2024 |
| Gweler tudalen ein hymgyrchoedd gwrth-sbeicio yma. | Helen (Llesiant 2023-24) | Mehefin 2024 |